# Yr her:

Mae'r traeth yn le hyfryd i dreulio'ch amser yn ystod yr Haf. Digon o gyfle i greu atgofion a chael hwyl gyda teulu a ffrindiau – adeiladu cestyll tywod, nofio yn y môr, casglu cregyn, bwyta picnic a hufen-iâ!
Ond, yn anffodus yn ddiweddar mae rhai wedi dewis gadael sbwriel ar y traeth a'i adael yn anniben tost! Sut allwch chi helpu?



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Ydych chi'n mwynhau treulio amser ar y traeth?
- Sawl traeth ydych chi wedi ymweld?
- Beth yw'r traeth agosaf?
- Sut ydych chi'n teithio i'r traeth?
- Pa weithgareddau ydych yn hoffi gwneud ar y traeth?
- Pryd fyddech yn ymweld â'r traeth?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Yr Haf (Bl 1 & 2)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau sillafu wythnosol. Mae'r geiriau ar Spell j2blast i'w ymarfer!<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 - tabl 1, 2, 5 a 10/Bl2 - tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!)<br>• Mathemateg - Bondiau rhif hyd at 100 - adio a thynnu.<br>• Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian<br>• Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | • Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb<br>• Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Edrychwch ar glawr y llyfr 'Sglod a Blod'. Beth ydych yn ei weld? Ble mae'r awdur/awdures? Ble a beth yw'r broliant? Beth ydych chi'n credu fydd yn digwydd yn y stori (cyn ei ddarllen)?<br>Yna, ewch ati i'w ddarllen a thrafod rhannau'r stori. Pwy yw eich hoff/cas gymeriad? Beth yw eich hoff rhan? (Mae'r stori o dan 'Adnoddau Wythnos 6'). | Agorwch siop Hufan-Iâ... beth am greu bwydlen ar gyfer pob eitem yn eich siop chi? Chwaraewch rôl gyda aelod o'ch teulu. Defnyddiwch darnau arian i dalu (a newid). Sawl eitem ydych yn gallu prynu am 10c, 20c, 50c a £1 ayyb. | Ar ddiwrnod braf, ewch ar daith gerdded yr Haf.<br>Beth yw eich pump synnwyr? Defnyddiwch eich synhwyrau i lenwi'r tabl.<br>Beth ydych yn gallu gweld, arogli, teimlo, clywed a blasu?<br>Defnyddiwch y mat 'Synhwyrau' i'ch helpu (o dan 'Adnoddau Wythnos 6'). |
| Ar y newyddion mae gennym broblem - wrth ymweld â'r traeth mae llawer o bobl wedi gadael ei sbwriel ar ôl.<br>Gofynnwn i chi i ddylunio a chreu poster yn annog pobl i godi ei sbwriel a'i rhoi yn y bin/neu mynd ag ef adref.<br>Cofiwch i gynnwys berfau gorchmynnol e.e. cofiwch, rhowch, codwch; atalnodi; lluniau a lliwiau deniadol.<br>Rhaid bod y rheolau'n glir fel bod y poster yn tynnu sylw'r ymwelwyr. | Ewch am drip i lan y môr gydag oedolyn.<br>Casglwch cymaint o bethau naturiol a gallwch o'r traeth e.e. brigau, cerrig, cregyn, gwymon ayyb.<br>Didolwch yr eitemau gan ddefnyddio meini prawf penodol e.e. lliw, maint, patrwm, hoff rhai ayyb.<br>Cofnodwch sawl eitem sydd a mewnbynnwch y wybodaeth mewn i graff ar Hwb. Sawl eitem sydd gyda chi'r mwyaf/lleiaf ohono ayyb. | Casglwch deunyddiau naturiol ar y traeth.<br>Ewch ati i greu collage naturiol o aelodau'r teulu/llong/goleudy/hufen iâ ayyb.<br>Cofiwch i dynnu llun o'ch Celf Cŵl a'i roi ar Hwb/Trydar!<br>Byddwn yn dwli gweld eich campweithiau creadigol. |
| Mae Porth Tywyn yn le hyfryd i'w ymweld. Ewch ati i greu pamffled yn perswadio ymwelwyr i dreulio'i gwyliau yn yr ardal. Bydd angen cynnwys atyniadau'r ardal e.e. goleudu, y traeth, yr harbwr, bwytai amrywiol, RNLI ayyb. | Archwiliwch am offer sy'n dal dŵr e.e. jwg, caniau, poteli, potel sudd gwag, pot iogwrt, carton sudd, bwced, padell ayyb.<br>Beth am fesur faint o ddwr mae pob cynhwysydd yn medru ei ddal? Ydych chi'n gallu mesur gan ddefnyddio unedau ansafonol e.e. sawl cwpan o ddŵr sydd ei hangen i lenwi'r jwg. HER: Defnyddiwch | Ewch ati i greu lolipops iachus eich hun gydag oedolyn.<br>Beth yw eich hoff ffrwyth? Beth am ddefnyddio sudd oren, sudd afal, iogwrt yn ogystal â ffrwythau.<br>Ar ôl rhewi'r lolipops, beth am dynnu llun o |

| | | |
|---|---|---|
| Rhaid cynnwys lluniau o'r ardal, gwybodaeth berthnasol, ansoddeiriau i ddisgrifio e.e. bwyd blasus, harbwr hyfryd, môr mawreddog, goleudy gwych. | unedau safonol e.e. ml, l i fesur faint mae pob cynhwysydd yn medru dal.<br>Trydarwch eich lluniau i ddangos eich gwaith mesur! @ParcyTywyn. | chi'n mwynhau ei bwyta – rhannwch rhain gyda ni ar Hwb/Drydar.<br>HER: Ewch ati i ysgrifennu rysait syml 'Sut i greu lolipop iachus'. Cofiwch gynnwys berfau gorchmynnol, cysylltieiriau amser e.e. Yn gyntaf, nesaf, wedyn, yn olaf ayyb. |
| Gallaf wneud... | | |
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p<br>Llifo'n Llawen – Yoga<br>Just Dance – 'Youtube' | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com<br>Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb<br>Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube |